

Fforwm Mynediad Lleol Bro Morgannwg

Adroddiad Blynyddol 2023/24



Rhagair

Fel yr Ysgrifennydd, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol diweddaraf Fforwm Mynediad Lleol Bro Morgannwg.

Mae'r adroddiad yn grynoded o waith y Fforwm a'r meysydd allweddol y mae wedi edrych arnynt, ac mae'n cwmpasu ail flwyddyn y Fforwm presennol. Mae mwy o fanylion, gan gynnwys agendâu, adroddiadau a chofnodion, ar gael ar wefan Cyngor Bro Morgannwg.

Mae'r Fforwm wedi parhau i weithredu gydag aelodaeth uwchlaw'r isafswm statudol. Parhaodd aelodau'r FfMLI i gyfrannu at ddatrys a datblygu materion a pholisi mynediad cefn gwlad ym Mro Morgannwg. Rydym yn ddiolchgar iawn am eu mewnbwn gwirfoddol ac am y profiad a'r cyngor y maent yn eu darparu a'u hymrwymiad i waith y fforwm. Mae'r Fforwm wedi cael ei gefnogi drwy ymrwymiad parhaus swyddogion o Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

Fel yr ydym wedi'i ddweud mewn Adroddiadau Blynyddol blaenorol, mae'r rhain yn parhau'n gyfnodau heriol i bawb yn y sector cyhoeddus. Er bod effaith Covid y tu ôl i ni, gobeithio, mae pwysau'r gyllideb yn parhau i effeithio ar wasanaethau, ond rydym unwaith eto yn falch o gydnabod perthynas adeiladol y Fforwm â Chyngor Bro Morgannwg.

Mae angen ailbenodi'r Fforwm bob tair blynedd. Cafodd yr aelodaeth ei hadnewyddu ym mis Tachwedd 2022 ac felly bydd aelodaeth bresennol y FfMLI yn parhau tan fis Tachwedd 2025. Bydd y broses ailbenodi yn dechrau yn ystod ail hanner 2025, ac edrychwn ymlaen at dderbyn ceisiadau gan bawb sydd â diddordeb brwd mewn mynediad cefn gwlad.

Yn olaf, yn ogystal â diolch i aelodau'r Fforwm am eu hymdrechion yn ystod y flwyddyn, hoffem unwaith eto nodi ein gwerthfawrogiad o'r cymorth sy'n cael ei roi gan y gwahanol swyddogion o fewn y Tîm Hawliau Tramwy ynghyd â'r holl wirfoddolwyr sy'n cynorthwyo i sicrhau bod llwybrau mor hygyrch â phosibl. Diolch yn fawr i bawb.

Gareth Davies (Ysgrifennydd)

Beth yw'r Fforwm Mynediad Lleol (FfMLI)?

Swyddogaeth Fforwm Mynediad Lleol Bro Morgannwg yw rhoi cyngor i'r Cyngor, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru ac eraill fel y bo'n briodol. Mae ei gylch gwaith yn ymdrin â gwella mynediad cyhoeddus i dir yn yr ardal at ddibenion hamdden awyr agored a mwynhau'r ardal mewn ffyrdd sy'n ystyried rheoli tir, a buddiannau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol ac addysgol.

Cyfarfodydd

Cynhaliwyd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn unol â rheoliadau'r fforwm mynediad lleol. Cynhaliwyd cyfarfodydd ar 23 Tachwedd a 24 Gorffennaf 2024, gydag agendâu cyhoeddus ar gael ar wefan y Cyngor.

Crynodeb o waith y Fforwm

Diweddariad ar Orchmynion Cyfreithiol a Gorchmynion Addasu ar sail Tystiolaeth

Mae swyddogion yn rhoi diweddariad ym mhob cyfarfod ar Orchmynion Cyfreithiol ac Addasu'r rhwydwaith hawliau tramwy ar draws Bro Morgannwg.

Blaenoriaethau Cynnal a Chadw

Ym mhob cyfarfod, derbyniodd y Fforwm adroddiadau yn ymwneud â Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTCau) y Cyngor, sy'n rhyw 570km rhyngddynt. Roedd y Tîm HTC wedi clirio 35km o lystyfiant o lwybrau ac roedd camfeydd a gatiau mochyn wedi'u hatgyweirio neu eu disodli.

Grant Gwella Mynediad 2023/24 a Gwaith Cynnal a Chadw

Yn ystod 2023-24 rhoddwyd cyllid i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru drwy Grant Gwella Mynediad. Diben y grant oedd cefnogi gwella mynediad i'n rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus, tir mynediad agored a mannau gwyrdd. Ar gyfer Bro Morgannwg, cyfanswm y grant ar gyfer 2023/24 oedd £40k i ariannu nifer o brosiectau gan gynnwys:

- Pyst a disgiau cyfeirbwynt ar ochr y ffordd.
- Pecynnau celfi llwybr
- 2 bont droed i gerddwyr.



Cyflwyniad gan Dyst Allanol – Tricia Cottnam, Cyfoeth Naturiol Cymru – Llwybr Arfordir Cymru

Rhoddodd T. Cottnam, Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyniad trosolwg o Lwybr Arfordir Cymru. Dechreuodd y cyflwyniad gan amlinellu bod llwybr yr arfordir o amgylch Cymru tua 870 milltir o hyd ac fe'i hgorwyd yn swyddogol ar 5 Mai 2012.

O ran ardal Bro Morgannwg, roedd llwybr yr arfordir yn 38 milltir o hyd. Rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru grant blynyddol i'r Cyngor ar gyfer cynnal a chadw ac roedd arian grant ychwanegol wedi'i roi ar gyfer codi adeileddau fel pontydd troed.

Defnyddiwyd grant Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2024 i ail-alinio'r llwybrau yn Larnog, Sain Dunwyd a Bae Tŷ Haf a gosod arwyddion a logos Llwybr Arfordir Cymru newydd. Cafodd y gwaith ei wneud ar y cyd rhwng y Tîm HTC a Cheidwaid y Cyngor.

Cynllun Peilot Llwybrau Natur a Hygyrchedd

Yn ei gyfarfod ar 24 Gorffennaf 2024, cafodd y Fforwm wybod am y cynllun peilot Llwybrau Natur a Hygyrchedd a gynhaliwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd y prosiect peilot yn cynnwys dau lwybr ym Mro Morgannwg a oedd wedi'u nodi i'w cynnwys. Byddai'r cynllun peilot yn arwain at arolygu llwybrau er mwyn asesu eu hygyrchedd i bobl ag anabledd a byddai'n eu galluogi i ddeall y llwybr cyn iddynt gyrraedd eu cyrchfan. Roedd y llwybr cyntaf a ddewiswyd ar gyfer Bro Morgannwg o amgylch Gorllewin Aberddawan i Gwm Colhuw a nodwyd bod angen gatiau newydd a oedd yn haws eu hagor. Roedd yr ail lwybr o amgylch Penarth a Swanbridge, ac unwaith eto fe'i nodwyd ar gyfer gosod gatiau newydd a hefyd wyneb gwell oherwydd ardaloedd gwlyb a mwdlyd.

Cyflwyniad gan Dyst Allanol - C. Grimes, Rheolwr Gyfarwyddwr Experience Community - Mynediad Lleiaf Rhwystrol

Rhoddodd Mr Grimes gyflwyniad PowerPoint ar Fynediad Lleiaf Rhwystrol i rwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus prosiect peilot i asesu hygyrchedd:

- Nodwyd bod rhywfaint o'r wybodaeth i bobl anabl i gynorthwyo gyda mynediad i gefn gwlad yn eithaf cyfarwyddol, yn weddol fyr ac nad oedd yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r heriau y gallent eu hwynebu.
- O ganlyniad, roedd Experience Community, yn ôl yn 2019, wedi datblygu system sgorio llwybrau o 1 i 5 - 5 oedd yr wyneb lle gallai pobl anabl ddod ar draws rhwystrau a allai fod yn anghramwyadwy, a lle gallai fod angen cymorth gan bobl nad ydynt yn anabl.
- O ran sgorio'r llwybrau, roedd hyn yn cynnwys lluniau o unrhyw rwystrau posibl y gallai pobl anabl eu hwynebu ac a oedd giât allwedd radar wedi'i gosod gan nad oedd allwedd ar gael bob amser ac felly byddai angen i berson anabl egluro cyn dechrau'r llwybr.
- Hefyd cafodd gwybodaeth ei chasglu am led lleiaf llwybrau gan fod hyn yn arbennig o bwysig i bobl mewn cadeiriau olwyn.
- Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal archwiliad i dynnu sylw at y rhan o Lwybr Arfordir Cymru y gellid ei gwella, ac roedd hyn wedi arwain at ymgyrch hyrwyddo i bobl anabl a oedd yn cynnwys chwe chwestiwn sylfaenol a fyddai'n helpu person i asesu a oedd llwybr yn addas.
- Roedd graddiannau dyrchafedig ac i lawr wedi'u cofnodi ac roedd hyn yn cynorthwyo pobl a oedd angen offer symudedd.
- Yn olaf, roedd y sefydliad Experience Community wedi dyfeisio toiled cyhoeddus hygyrch yr oedd llawer o enghreifftiau ohono ledled y wlad, sef un o'r argymhellion a wnaed i'r Cyngor symud ymlaen.

Roedd yn bleser nodi y byddai mwy o wybodaeth yn cael ei rhoi i'r Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus er mwyn datblygu a gwella mynediad i bobl ag anabledd.



Aelodaeth 2023/2024

Ian Perry (Cadeirydd)
William Hennessy (Is-gadeirydd)
Stuart Bain
Ian Buckley
Samantha Campbell
Judith Cole
Frank Coleman
Lorry Davies
Rebecca Exley
Ian Fraser
Sean Gaffney
Jerry Herbert
Catherine Lucas
Stuart McMillan
Geraint Thomas
Y Cyngorydd Eddie Williams
Gareth Davies (Ysgrifennydd)

Cysylltiadau

Ysgrifennydd Fforwm Mynediad Lleol Bro Morgannwg

Gareth Davies
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holitwn
Y Barri

Ffôn – 01446 709249

E-bost - gjdavies@valeofglamorgan.gov.uk

Gellir dod o hyd i agendau, adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd Fforwm Mynediad Lleol y Cyngor drwy'r ddolen isod:

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/minutes,_agendas_and_reports/minutes-agendas-and-reports.aspx



